# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 9fed o Ebrill, 2024** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Festri Capel Isa, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Lois Fychan** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Lois Fychan **(LF)** bawb i'r cyfarfod.<br><br>**<u>YN BRESENNOL:</u>**<br><br>Sianelen Pleming **(SP);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Osian Hugh Williams **(OHW);** Olwen Roberts **(OR);** Emlyn Williams **(EW);** William Jones **(WJ);** Gethin Jones **(GJ);** Y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG);** a'r clerc Gillian Thomas **(GT)** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **<u>DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN</u>**<br><br>Ynyr Ellis **(YE).** |
| **3.** | **CYFLWYNO A MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD MAWRTH 2024** |
| | Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan OW gyda GJLJ yn eilio. |
| **4.** | **MATERION YN CODI** |
| | **a)** **<u>LLWYBR I DRAETH PISTYLL</u>**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi llwyddo i drefnu trafodaeth gydag OW a Phlas yn Rhiw. Adroddodd OW bod yr Ymddiriedolaeth wedi cytuno i wneud y gwaith ond bydd rhaid trefnu cyllid. Bydd yn cysylltu nôl gydag OW mewn da bryd. I'w drafod fis nesaf.<br><br>**b)** **<u>MEINCIAU PISTYLL</u>**<br>Roedd y clerc wedi derbyn gohebiaeth yn cadarnhau bod y gwaith wedi ei gwblhau, er gwaethaf hyn nid oedd yr aelodau yn cytuno bod unrhyw waith wedi ei ddarparu. Y clerc i ddilyn.<br><br>**c)** **<u>MEINCIAU LÔN CARGYWCH</u>**<br>Y clerc i archebu mainc compesit.<br><br>**d)** **<u>TWLL YN Y FFORDD GYFERBYN A THŶ NEWYDD LLITHFAEN UWCHBEN Y GANOLFAN</u>**<br>Adroddodd y Clerc bod y gwaith wedi ei ddarparu ac Archwiliwr am gadw golwg ar y sefyllfa. Adroddodd yr aelodau bod tyllau ychwanegol wedi agor ar hyd Lôn Isaf Llithfaen. Y clerc i adrodd i Briffyrdd Dwyfor.<br><br>**e)** **<u>CERBIAU ANWASTAD AC YN SYMUD DROS FFORDD A RHESDAI PISTYLL</u>**<br>Nid oedd yr aelodau yn fodlon bod unrhyw waith wedi ei ddarparu, y clerc i ddilyn y mater.<br><br>**f)** **<u>DWR AR Y FFORDD UWCHLAW MYNEDFA GWYNUS PISTYLL</u>**<br>Nid oedd yr aelodau yn fodlon bod unrhyw waith wedi ei ddarparu, y clerc i ddilyn y mater.<br><br>**g)** **<u>ARWYDD LON GROES</u>**<br>Adroddodd OW bod gwaith wedi ei ddarparu, ond bod yr arwydd wedi ei ail leoli i safle ac yn codi pryderon am welediad ymhellach. Roedd y clerc wedi dilyn y mater eto. |

| | |
|---|---|
| | **h)** **SP - DWR YN RHEDEG I'R PENTREF I LAWR Y LON O NANT**<br>Derbyniwyd gohebiaeth gan Briffyrdd Dwyfor yn adrodd bod y mater wedi cael ei ychwanegu i'r rhaglen waith. Nid oedd dyddiadur wedi ei rannu.<br><br>**i)** **TWLL YN Y FFORDD 100 LLATH O LON RHOSYDD**<br>Y gwaith wedi ei gwblhau, Archwilwyr Priffyrdd am gadw golwg arno. |
| **5.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Nid oedd dim wedi ei ddatgan |
| **6.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Popeth mewn cyflwr derbyniol |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Dim i'w drafod |
| **8.** | **SEDD WAG - LLITHFAEN** |
| | Derbyniwyd diddordeb gan ddau i ymuno a'r Cyngor sef Derek Thomas a Jac Dobson.<br><br>Nodwyd bod Mr Thomas wedi gyrru cefnogaeth i'r Adran Etholiadau'r Cyngor Sir ond ddim wedi gofyn am etholiad. Cytunwyd bod cais ffurfiol Mr Dobson wedi ei dderbyn ar ôl y dyddiad cau swyddogol. I berwyl hyn roedd Mr Thomas yn llwyddo. Y clerc i'w ddiweddaru. |
| **9.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN** |
| | Nodwyd bod y gwaith atgyweirio yn symud ymlaen yn ddi drafferth. Y clerc i barhau ymdrechion i dderbyn y les. |
| **10.** | **DIFFIBLWR PISTYLL** |
| | Adroddodd GJ bod y diffiblwr bellach wedi ei godi ar y safle ac yn fyw gyda The Circuit. Cronfa'r diffiblwr wedi ei neilltuo yng nghyfrif y Cyngor. |
| **11.** | **MATERION LLEOL** |
| | GJLJ - Dwr yn casglu ar Bont Bryn Celyn oherwydd gordyfiant.<br><br>SP - Adroddodd SP am fenter gymunedol o ganlyn Cyfarfod gyda Chadw Cymru yn Daclus.<br>Bydd Siop y Groes Llithfaen nawr hefyd yn hwb casglu ac yn cadw dulliau galluogi codi sbwriel yn saff. Bydd yn falch iawn am dderbyn unrhyw wybodaeth am wirfoddolwyr, cytunodd GJ ei hysbysebu ar dudalen FB y Cyngor. |
| **12.** | **HYFFORDDIANT** |
| | Yr aelodau i ddiweddaru'r clerc o'i dymuniadau |
| **13.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a)** **DIWEDDARIAD GAN BWYLLGOR GWASANAETHAU AMBIWLANS BRYS AR Y GWASANAETH CASGLU A THROSGLWYDDO MEDDYGOL**<br>**b)** |

| | |
|---|---|
| | **c)** <u>**GWAHODDIAD - TAI AR DAITH CYNGOR GWYNEDD - 4.30-7PM, 2 MAI 2024 - YSGOL GLAN Y MÔR, FFORDD CAERDYDD, PWLLHELI.**</u><br><br>**d)** <u>**CHWILIO AM GEFNOGAETH PAR CYNLLUN HEDDLU YSGOLION – CYNGOR CYMUNED DOLBENMAEN**</u><br>Cytunodd y Cyngor gefnogi'r cais, y clerc i lythyru gyda Liz Saville Roberts a Mabon ap Gwynfor i ofyn iddynt roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ail ystyried y penderfyniad yma. |
| **14.** | **CYLLID** |

**a)** <u>**CYSONIAD A RHAGAMCANION 2024 / 25**</u>

Cymeradwywyd y cysoniad

| | | | |
|---|---|---|---|
| + | **CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2024** | | **£ 17,184.69** |
| + | **CYFRIF CADW MAWRTH 2024** | | **£ 2,717.05** |
| - | **LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | | **£ 3,936.75** |
| + | **GWARGED 2024/ 2025** | | **-£ 360.00** |
| = | **CRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 15,604.99** |

**b)** <u>**DATGANIAD CYFRIFYDDU 2023-2024**</u>

Cymeradwywyd y Datganiad

**c)** <u>**CHWYDDIANT CYFLOG Y CLERC**</u>

Cytunodd y Cyngor ymrwymo i'r chwyddiant

**d)** <u>**CYFRIFLEN BANC**</u>

| <u>**CYFRIF CYFREDOL - 01 Fawrth I 31 o Fawrth 2024**</u> | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 16,330.49** |
| Derbyniadau | + | £ 860.00 |
| Gwariant | - | £ 5.80 |
| Balans Cau | = | **£ 17,184.69** |
| | | |
| <u>**CYFRIF CADW - 07 Chwefror i 6ed o Fawrth 2024**</u> | | |
| Balans Agoriadol | | **£ 2,703.97** |
| Derbyniadau | + | £ 13.08 |
| Gwariant | - | £ - |
| Balans Cau | = | **£ 2,717.05** |
| | = | **£ 19,901.74** |

**e)** <u>**TALIADAU I'W CYMERADWYO**</u>

| | | |
|---|---|---|
| Un Llais Cymru | **201307** | **38.00** |
| G. Thomas | **201305** | **322.00** |
| | = | **£ 360.00** |

| | |
|---|---|
| **15.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 14eg o Fai 2024. 7y.h Capel Isaf Llithfaen i gychwyn gyda'r Cyfarfod Blynyddol |

*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*